Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin y Waun Ddyfal**

**Eglwys Anglicanaidd Sant Mihangel a'r Holl Angylion**
**Ffordd yr Eglwys Newydd**
**Caerdydd**
**CF14 3JL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

29/06/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin y Waun Ddyfal

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Cylch Meithrin y Waun Ddyfal |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau am yr hyn y maent yn chwarae ag ef ac maent yn hyderus i fynegi eu barn. Maent yn datblygu sgiliau annibyniaeth da ac yn rhyngweithio'n dda â’r staff a’r plant eraill.

Mae'n hawdd mynd at y tîm bach o staff, ac maent yn darparu gofal cynnes ac ymatebol ac yn cefnogi anghenion y plant yn effeithiol. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â llesiant y plant. Hyrwyddir chwarae'r plant yn effeithiol ac mae'r staff yn meithrin amgylchedd lle mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus ac wedi ymlacio.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod unrhyw risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. Mae pob ardal yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac yn lân. Defnyddir yr ardal awyr agored yn dda, ac mae'n darparu amgylchedd ysgogol lle gall y plant chwarae a dysgu. Mae'r adnoddau yn briodol i oedran y plant ac o ansawdd da.

Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, bu nifer o newidiadau staff yn y lleoliad, gan gynnwys newidiadau i'r person â chyfrifoldeb a'r unigolyn cyfrifol, na chafodd AGC wybod amdanynt.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Anogir y plant i siarad a mynegi eu hunain. Gwrandewir arnynt, sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae'n hybu eu llesiant. Maent yn archwilio eu hamgylchedd yn rhydd ac yn dewis yr hyn yr hoffent chwarae ag ef. Mae gan y plant lawer o gyfleoedd i wneud penderfyniadau; maent yn dewis byrbrydau o amrywiaeth o ffrwythau a thost ac yn penderfynu pryd y byddant yn chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad. Mae'r plant yn ymdopi'n dda â gwahanu, ac yn ymgartrefu'n gyflym. Maent yn ffurfio perthynas gadarnhaol â'r staff ac yn dangos hoffter digymell tuag atynt. Gwelsom y plant yn gofyn i'r staff fynd â nhw i'r ystafell ymolchi pan oedd angen iddynt ddefnyddio'r toiled.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn gyfarwydd ag arferion y lleoliad. Maent yn chwarae ac yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffyrdd sy'n briodol i'w hoedran a'u camau datblygu. Mae'r plant hŷn yn dechrau cymryd eu tro ac yn rhannu ac yn gwrando pan gânt eu hatgoffa i wneud hynny. Mae'r plant iau yn chwarae'n fodlon ochr yn ochr â'i gilydd.

Mae'r plant yn ymgysylltu'n dda â'u gweithgareddau dewisol ac yn datblygu sgiliau canolbwyntio. Maent yn elwa ar ystod dda o weithgareddau ac adnoddau dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd tynnu llun, yn awyddus i ddangos i'r staff yr hyn y maent wedi ei greu. Yn ystod amser cylch, mae'r plant yn ymuno'n frwdfrydig i ganu eu caneuon dewisol. Mae'r plant yn brysur y rhan fwyaf o'r amser ac yn mwynhau eu hamser.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn golchi eu dwylo yn ôl yr angen, ac yn deall y drefn o dacluso pan fydd gweithgareddau'n newid a chyn iddynt adael am y dydd. Mae'r plant yn gweini eu hunain yn ystod amser bwyd, gyda'r staff ar gael i gynorthwyo os oes angen. Mae'r plant yn ymddwyn yn dda iawn, maent yn gwrtais, ac maent yn mwynhau canmoliaeth oddi wrth y staff am fod yn garedig a chymwynasgar.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r tîm bach o staff yn cydweithio'n dda ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a llesiant y plant. Mae nifer digonol o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig cyfredol a gallant ymdrin â'r mân faterion sy'n codi. Mae'r staff yn gwybod am ofynion deietegol penodol y plant ac yn ymwybodol o unrhyw alergeddau unigol. Yn ystod yr arolygiad, gwelwyd y plant yn mwynhau byrbryd gyda'i gilydd ac yn cael eu hannog i fod yn annibynnol. Mae'r plant yn cael cynnig llaeth neu ddŵr i'w yfed yn ystod amser bwyd, ond nid oes ganddynt fynediad at ddiod trwy gydol y sesiwn. Cadarnhaodd yr unigolyn cyfrifol fod gorsaf yfed wedi'i sefydlu yn dilyn yr ymweliad arolygu. Mae damweiniau a digwyddiadau'n cael eu cofnodi ac yn cael eu llofnodi gan rieni, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, ond nid yw anafiadau'r plant sy'n bodoli eisoes yn cael eu cofnodi.

Mae gan y staff berthynas dda a chynnes â'r plant. Maent yn cynnig canmoliaeth ac anogaeth yn gyson i'r plant – er enghraifft, 'da iawn' ac 'ymdrech dda'. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a gyda'r plant yn barchus. Maent yn fodelau rôl da ac yn ymateb yn briodol i anghenion unigol y plant. Mae'r staff yn annog y plant i gydweithredu, rhannu a chymryd eu tro, sy'n gwella llesiant y plant. Mae polisi rheoli ymddygiad addas ar waith. Mae'r staff yn gweithredu'r polisi yn dda ac maent yn gyson yn eu hymagwedd. Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd angen i'r staff ymyrryd llawer o gwbl, ond roeddent wrth law os oedd angen.

Mae'r staff yn deall pwysigrwydd chwarae ac yn rhoi lle i'r plant wneud penderfyniadau am eu chwarae. Mae ffocws y sesiynau i raddau helaeth iawn yn cael ei arwain gan y plant, gyda'r pwyslais ar y plant yn dylanwadu ar yr hyn a wnânt trwy gydol eu hamser yn y lleoliad. Mae'r staff yn darparu cyfle i'r plant fod yn egnïol ac i gael awyr iach trwy fynd i'r ardal awyr agored i chwarae. Fel tîm o staff, maent yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant, ac yn hapus i gymryd rhan mewn gweithgareddau ochr yn ochr â'r plant.

## Yr Amgylchedd Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a llesiant y plant. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o ystafell ar y llawr daear yn yr eglwys, gyda mynediad i gegin, cyfleusterau toiled ac ardal awyr agored amgaeedig. Mae drws o dan glo i atal mynediad cyhoeddus a chedwir cofnodion o'r ymwelwyr. Mae cofnodion presenoldeb yn nodi amserau cyrraedd a gadael y plant yn gywir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn dilyn arferion gwacáu mewn argyfwng, sy'n cael eu cofnodi'n dda. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn deall beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae arferion glanhau yn adlewyrchu arferion hylendid da a gwaith effeithiol o ran rheoli heintiau. Er enghraifft, mae'r staff a'r plant yn golchi eu dwylo ar adegau priodol o'r dydd ac mae'r staff yn diheintio'r byrddau'n rheolaidd.

Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae'n darparu lle croesawgar sy'n addas i blant. Mae gan y plant ddigonedd o le i chwarae a dysgu yn yr ystafell fawr a thu allan, gan gynnwys celf a chrefft, chwarae rôl, posau a theganau olwynion. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid yn hygyrch ac yn lân, gan ddarparu'r preifatrwydd ac urddas priodol i'r plant.

Mae'r adnoddau yn briodol ar gyfer oedran y plant ac o ansawdd addas. Gall y plant gael mynediad rhwydd at y rhan fwyaf o eitemau, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Mae gan y lleoliad ddodrefn addas megis byrddau, cadeiriau a ffabrigau dodrefnu meddal sy'n addas i faint plentyn. Defnyddir yr ardal awyr agored yn rheolaidd yn ystod y sesiynau. Mae'r ardal hon yn rhoi cyfleoedd da i'r plant chwarae'n egnïol ac yn ymestyn eu dysgu a'u datblygu. Mae'r plant yn gwerthfawrogi eu hamser yn yr awyr agored yn fawr ac yn dangos brwdfrydedd mawr, gan symud o gwmpas yr ardal yn dilyn eu diddordebau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Gwael

Ar y cyfan, caiff y lleoliad ei redeg yn dda o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae angen gwella arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth. Bu nifer o newidiadau i'r staff na hysbyswyd AGC amdanynt. Mae hyn yn rhoi iechyd a llesiant y plant mewn perygl ac rydym felly wedi dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Mae’n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae datganiad o ddiben addas sy'n rhoi gwybodaeth bwysig i'r rhieni am sut y cynhelir y lleoliad. Mae polisïau a gweithdrefnau gofynnol ar waith ac mae'r staff yn eu dilyn yn briodol, sy'n helpu’r lleoliad i redeg yn esmwyth. Mae’r staff yn cydweithio’n dda, sy’n creu ethos cadarnhaol, gan arwain at ganlyniadau buddiol i’r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynllunio'n briodol ar gyfer gwelliant. Gan fod y lleoliad o fewn y flwyddyn gyntaf o weithredu, nid yw adroddiad ansawdd gofal wedi'i gwblhau eto. Mae polisi cwynion addas ar waith pe byddai rhieni'n dymuno lleisio mater. Mae'r unigolyn cyfrifol sydd newydd ei benodi wedi ymrwymo i wneud gwelliannau er budd y plant a'u teuluoedd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal gwiriadau trylwyr i sicrhau bod yr holl staff yn addas i weithio gyda'r plant. Mae'r ffeiliau recriwtio a archwiliwyd yn dangos bod yr arweinwyr yn deall eu cyfrifoldeb i sicrhau bod y staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel a bod ganddynt y cymwysterau a phrofiad angenrheidiol i ofalu am y plant. Mae gweithdrefnau sefydlu cynhwysfawr ar waith, sy'n sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan y pwyllgor.

Mae’r partneriaethau â’r rhieni yn gadarnhaol. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gwasanaeth a ddarperir, gan ddweud eu bod yn dawel eu meddwl ac yn gwybod bod eu plant yn ddiogel ac yn hapus wrth fynychu.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Cofnodi anafiadau sy'n bodoli eisoes a sicrhau bod y rhieni'n llofnodi'r cofnod

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr adolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi hysbysu AGC am newidiadau i'r staff yn y lleoliad. Rhaid hysbysu AGC am bob newid i'r staff, gan gynnwys arweinyddiaeth. | Newydd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes / Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 17/08/2022